# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg o Ebrill 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton, Alan H. Jones

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 15 Mawrth 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101738 | £188.52 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101739 | £47.00 |
| Dŵr Cymru | Pafiliwn | 101740 | £55.30 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus - Canllaw Cynllunio Atodol Drafft - CCA15: Telegyfathrebu a Mastiau:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cronfa Gymunedol yr Awdurdod:

Adroddwyd bod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus mewn cais am grant gwerth £500 tuag at offer chwarae newydd i'r cae chwarae.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio – Meithrinfa Deryn Bach, Ysgol Bryncrug, Bryncrug, LL36 9PR (NP5/55/228B):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

8. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith:

Trafodwyd nad oedd arwydd yn y cae chwarae ym Maes Hyfryd yn dweud nad yw chwarae pêl yn cael ei ganiatáu.

Ni fu i'r Cynghorydd Bethan Lawton bleidleisio ar y mater o arwydd ar gyfer maes chwarae Maes Hyfryd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I ofyn i Gyngor Gwynedd ddarparu arwydd yn y cae chwarae yn dweud nad yw chwarae â phêl yn cael ei ganiatáu.

9. Gorr-yrru yn y pentref:

Adroddwyd bod nifer o geir yn gyrru drwy'r pentref, oddeutu 30 o geir yn teithio o Dywyn i Abermaw. Nodwyd hefyd y pryder gorr-yrru yn y pentref, o pob cyfeiriad.

**PENDERFYNIAD:** I ofyn i Heddlu Gogledd Cymru anfon swyddogion er mwyn trafod y cynllun Go Bwyll, sydd yn defnyddio gwirfoddolwyr i fonitro cyflymder modurwyr.
I drafod fel eitem ar yr agenda mis nesaf, sef arwyddion radar.

10. Cyflwr y ffordd wrth ymyl y pont frics:

Y pont frics yw'r pont fach rhwng Maes Hyfryd a Phen y Bont, ar ffordd Cefn Coed.

Adroddwyd bod y ffordd wedi erydu ar ddiwedd y bont, a bod cyngor Gwynedd wedi rhoi concrid, ond er hynny bod twll yn y pont sydd yn mynd i'r afon.

**PENDERFYNIAD:** I ofyn i Gyngor Gwynedd am wybodaeth am pryd y maent yn bwriadu atgyweirio'r pont, cynlluniau i osod pibellau o dan y ffordd.

11. Biosffer Dyfi - cais i ddau gynghorydd fynychu cyfarfod:

**PENDERFYNIAD:** I anfon ymddiheuriadau ar ran y Cyngor. Gofyn am gopi o'r cofnodion os yn bosib a holiadur papur er mwyn i'r cyngor fedru gyfrannu tuag at y prosiect.

12. RBLI - Dathliadau i nodi Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop:

**PENDERFYNIAD:** I beidio prynu arwydd Tommy gan nad oes cof golofn rhyfel yn y pentref.

13. Ymgyrch baw ci yn y pentref:

Adroddwyd bod unigolion yn y pentref wedi dechrau ymgyrch yn erbyn baw cŵn yn y pentref. Yr oedd paent sialc yn cael ei roi o amgylch baw ci er mwyn ei amlygu, rhagor o arwyddion wedi eu gosod o gwmpas y pentref ac erthygl wedi ymddangos yn y Cambrian News. Yr oedd yn edrych fel bod yr ymgyrch wedi lleihau'r nifer o berchnogion cŵn sydd yn gwrthod codi baw ci i fyny.

**PENDERFYNIAD:** I brynu rhagor o baent sialc pe byddai'r grŵp angen rhagor yn y dyfodol, er mwyn i'r cyngor gefnogi'r ymgyrch.

14. Un Llais Cymru - Aelodaeth 2021/2022:

**PENDERFYNIAD:** I barhau gyda'r aelodaeth am 2021/2022.

15. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-pyst o amgylch y cae pêl-droed heb dderbyn sylw gan y clwb pel-droed

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at y Clwb Pêl-droed er mwyn eu hysbysu bod y cyngor yn mynd i ddymchwel y pyst sydd wedi pydru er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y cae chwarae.
I ofyn wrth Gyngor Gwynedd am declyn codi sbwriel.
I ofyn wrth Gyngor Gwynedd am wybodaeth ynghylch y dyddiad y mae ysbwriel a gwastraff ailgylchu yn cael ei gasglu o'r cae chwarae.

16. Cae Chwarae - cais gan aelod o'r cyhoedd i saethu bwa:

**PENDERFYNIAD:** I wrthod rhoi caniatâd i aelod o'r cyhoedd ddefnyddio'r cae chwarae ar gyfer ymarfer saethu bwa.

17. Cae Chwarae - prynu offer newydd:

**PENDERFYNIAD:** Yn dilyn derbyn grant gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri tuag at prynu offer newydd. I brynu siglen newydd gan gwmni G.L.Jones.

18. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-Wedi derbyn cwynion ynglŷn a'r premiwm ar ail-gartrefi, rhai unigolion yn honni bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n anghyfreithlon
-Yn cynghori'r Cyngor Cymuned i barhau i geisio canfod cynghorwyr cymuned drwy gyfethol aelodau

-Bin ysbwriel wedi diflannu wrth ymyl y Ganolfan, cafwyd wybod mai Cyngor Gwynedd oedd wedi ei symud i leoliad arall
-Wedi gweld unigolyn yn y cae chwarae yn chwarae pêl gyda'i gi
-Cyngor Gwynedd fod i roi arwydd ar Ffordd Rhydyronnen sydd yn dweud bod y ffordd wedi cau ymhen 1 milltir, am sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn gosod yr arwydd

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I brynu arwyddion dim ysmygu ac arwyddion dim cŵn ar gyfer y cae chwarae.

19. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd y canlynol gan gynghorydd:
-y gardd fach angen sylw
-biniau ailgylchu ddim yn cael eu casglu gan Gyngor Gwynedd
-llwybr cerdded angen sylw o'r Woodlands at Golau Gwyn, sef y grisiau, a camfa rhwng Ysgubor a Tynllwyn Hen.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:00pm

Llofnod y Cadeirydd ...........................................................